COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 10 IONAWR 2019, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd PJ White – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| HJ David | DK Edwards | J Gebbie | T Giffard |
| CA Green | RM James | D Patel | CE Smith |
| CA Webster | DBF White | HM Williams | RE Young |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

MC Clarke a/ac N Clarke

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Val Jones | Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

184. DATGAN BUDDIANT

Datganodd y Cyng. DBF White ddatgan sy'n rhagfarnu dan eitem 5 yr Agenda - Monitro Perfformiad a Chynnydd Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Bae'r Gorllewin gan mai Cyngor Abertawe, sy'n rhan o Fae'r Gorllewin, yw ei gyflogwr. Felly, nid oedd yn bresennol yn yr ystafell gyfarfod pan ystyriwyd yr eitem. Datganodd y Cyng. DBF White fuddiant personol dan eitem 6 yr Agenda – Arolygiaeth Gofal Cymru – Arolygiad o Wasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin - Cynllun Gweithredu ac arhosodd yn yr ystafell gyfarfod i glywed y cyflwyniad.

185. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Cabinet ar Rianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2018.

186. PROSIECT AILFODELU GWASANAETHAU MAETHU

Adroddodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant ar y gwaith a wnaed yn rhan o brosiect Ailfodelu Gwasanaethau Maethu a'r newid i'r Gwasanaethau Maethu o ganlyniad i hynny.

Hysbysodd y Pwyllgor y cynhaliwyd adolygiad eang o'r gwasanaethau preswyl. O ran y gwasanaeth maethu, gellid datblygu rhagor ar y gwasanaeth a ddarperir a sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Amlinellodd y cynigion a wnaed, y mentrau a roddwyd ar waith ynghyd â'r prif newidiadau a'r cynigion a gafwyd yn sgil yr adolygiad.

Dywedodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant fod y Tîm Maethu wedi'i rannu'n ddau faes penodol; mae gan y naill gyfrifoldeb dros ofalwyr sy'n berthnasau ac mae gan y llall gyfrifoldeb dros ofalwyr maeth cyffredinol. Hysbysodd y Pwyllgor y bydd y pum swydd bresennol sy'n ymwneud â chyswllt â gofalwyr yn cael eu cynnal. Bydd un ohonynt yn canolbwyntio ar ofalwyr sy'n berthnasau a'r pedwar arall yn gweithio â gofalwyr cyffredinol. O ran hyfforddiant, bydd y cwrs Skills to Foster yn cael ei ailstrwythuro a'i wneud yn gydnaws â'r cynllun hyfforddi a gynigir ar draws pob Cyfarwyddiaeth. Yn y

tymor hirach, bwriedir cryfhau'r hyfforddiant mewnol i ofalwyr maeth drwy ddatblygu a chynnal cyrsiau mewnol.

Er mwyn i daliadau a ffioedd fod yn gystadleuol ag Asiantaethau Maethu Annibynnol, dywedodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant fod yn rhaid i'r awdurdod dalu ffioedd i ofalwyr cyffredinol yn gynharach yn eu gyrfaoedd maethu. Byddai gofalwyr maeth yn cael ffi wedi iddynt gael eu cymeradwyo, a bydd disgwyl iddynt gwblhau'r rhaglen hyfforddi craidd o fewn y flwyddyn gyntaf. O ran uwchsgilio gofalwyr maeth, ac yn rhan o'r broses gymhwyso i dderbyn ffioedd, bydd y meini prawf y mae'n rhaid i ofalwyr eu bodloni i dderbyn y ffioedd uwch hefyd yn cynnwys presenoldeb mewn grwpiau cymorth. O ran taliadau bonws, byddai gofalwyr yn cael cynnig bonws o £250 os byddant yn cyfeirio ffrind i fod yn ofalwr maeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Bydd y bonws hwn yn cael ei dalu pan fydd yr unigolyn newydd hwnnw'n cael ei gymeradwyo a phan fydd wedi cychwyn ar ei leoliad cyntaf.

Hysbysodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant y Pwyllgor fod proses newydd wedi'i rhoi ar waith sy'n adolygu lleoliadau Asiantaethau Maethu Annibynnol sydd wedi bodoli ers llai nag 16 wythnos. Nod hyn fydd trosglwyddo cynifer o'r lleoliadau hyn â phosib i'r ddarpariaeth fewnol.  Nododd y bydd ymgyrch farchnata hirdymor yn cael ei gweithredu. Nod yr ymgyrch honno fydd sicrhau cynifer o ofalwyr maeth mewnol â phosib. Hysbysodd y Pwyllgor fod dau aelod o'r staff gwaith cymdeithasol sy'n gyfrifol am hyrwyddo ac am asesu ymgeiswyr am Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig bellach wedi'u lleoli o fewn y Tîm Maethu. Hysbysodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant y Pwyllgor fod Swyddog Datblygu wedi'i benodi ac y bydd rhagor o gapasiti gwaith cymdeithasol o fewn y Tîm Maethu yn cael ei greu er mwyn ymgymryd â gwaith asesu.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Rebecca Walsh ac i Clive Richards ac fe'u gwahoddwyd i fynegi'u barn ac i sôn am eu profiadau fel gofalwyr maeth.

Hysbysodd Mr Richards y Pwyllgor y bu'n rhan o'r prosiect ailfodelu ar y cyd â'r Rheolwr Grŵp Dros Dro - Lleoliadau. Dywedodd fod popeth wedi'i drefnu'n dda. Dywedodd fod yn rhaid cyflwyno newidiadau ac ategodd fod gofalwyr maeth ymroddedig iawn i'w cael ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Soniodd Ms Walsh wrth y Pwyllgor am y newidiadau a gafwyd dros y blynyddoedd diwethaf a arweiniodd at ofalwyr maeth yn gadael Asiantaethau Maethu Annibynnol ac yn dychwelyd i Ben-y-bont ar Ogwr.  Dywedodd Ms Walsh fod yn rhaid i ofalwyr maeth gydweithio â'r awdurdod er mwyn gwella bywydau plant ac i wario llai ar leoliadau y tu allan i'r sir.

Diolchodd yr Aelod Cabinet - Cymunedau i'r gofalwyr maeth am eu sylwadau a diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith. Diolchodd i'r gofalwyr maeth am eu hymdrechion i drawsnewid y gwasanaeth yn rhan o'r prosiect ailfodelu. Dywedodd fod hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r gofalwyr yn rhai mewnol.

Gofynnodd y Pwyllgor faint o blant sydd mewn lleoliadau maethu a holwyd am y ffigurau sy'n ymwneud â lleoliadau maeth dros y 3 blynedd ddiwethaf.  Hysbysodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant y Pwyllgor fod 279 o blant ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd mewn lleoliadau maeth. Roedd 58 ohonynt wedi'u lleoli ag Asiantaethau Maethu Annibynnol, roedd 156 wedi'u lleoli â gofalwyr mewnol ac roedd 65 wedi'u lleoli â gofalwyr sy'n berthnasau. Dywedodd ei bod yn galondid gweld bod nifer y lleoliadau maethu yn mynd yn y cyfeiriad cywir a bod llai o blant yn cael eu lleoli drwy Asiantaethau Maethu Annibynnol. I'r perwyl hwn, roedd 70 o blant wedi'u lleoli drwy Asiantaethau Maethu Annibynnol y flwyddyn flaenorol.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r gofalwyr maeth pa welliannau a wnaed o'u safbwynt nhw. Dywedodd Ms Walsh fod yr hyfforddiant wedi gwella am fod angen rhoi sylw i nifer o agweddau gwahanol er mwyn paratoi gofalwyr maeth ar gyfer y rôl. Ategodd y gall gofalwyr maeth gysylltu â'r Adran dros y ffôn a gallant gael hyfforddiant a mynediad i gronfa o adnoddau. Roedd modd gwella'r hyfforddiant oherwydd ymdrechion y tîm o swyddogion a gofalwyr maeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod gofalwyr maeth yn cael eu hystyried yn rhan o dîm mwy a gall y gwasanaeth ymateb yn fwy hyblyg i'r angen a bod yn rhagweithiol ac nid adweithiol. Ategodd fod hwn yn gyfnod cyffrous a bod angen cynnal y momentwm. Soniodd am lwyddiant y parti Nadolig diweddar a ddenodd dros 100 o bobl a dywedodd y cafodd hi a'r Aelod Cabinet y fraint o fod yn bresennol hefyd. Siaradodd hefyd am bwysigrwydd hyfforddi gofalwyr maeth er mwyn gwella eu sgiliau nhw a sgiliau eu teuluoedd.

Dywedodd y Rheolwr Grŵp Dros Dro - Lleoliadau y bu'n bosib defnyddio teuluoedd estynedig y gofalwyr maeth fel adnodd. Mae gan ofalwyr maeth lais cliriach ac mae'r tîm a'r gofalwyr maeth wedi gweithio'n galed i sicrhau bod gofal maeth wedi'i wreiddiol o fewn teuluoedd a bod gofalwyr yn rhan o'r tîm ehangach.

Diolchodd y Pwyllgor i'r gofalwyr maeth am ei hymroddiad i wella bywydau plant. Gofynnodd y Pwyllgor a gafwyd cynnydd yn nifer y plant sy'n cael eu maethu sydd ag anghenion cymhleth. Dywedodd Ms Walsh y cafwyd cynnydd yn nifer y plant mewn gofal maeth sydd ag anghenion cymhleth a bod y tîm yn darparu cymorth drwy roi sgiliau i ofalwyr maeth er mwyn cadw'r lleoliadau yn fewnol. Dywedodd Mr Richards fod y dirwedd o ran maethu wedi newid oherwydd y cyfryngau cymdeithasol ac oherwydd yr heriau a ddaw yn sgil perthnasau plant maeth. Ategodd mai'r peth pwysicaf oedd sicrhau sefydlogrwydd a threfn ym mywydau plant a dywedodd na ddylent orfod symud o'r naill ofalwr maeth i'r llall.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd gan ysgolion ran i'w chwarae i gefnogi'r broses faethu. Dywedodd Mr Richards fod ysgolion yn fwy rhagweithiol bellach a'u bod yn adnabod anghenion yn syth, yn arbennig felly yn y sector cynradd.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd awdurdodau lleol eraill sy'n lleoli plant o fewn y sir hon yn creu problemau. Hysbysodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant y Pwyllgor fod yr awdurdod hwn yn cydweithio'n dda â'r awdurdodau lleol sy'n lleoli plant yma a bod y trefniadau'n gadarn. Ategodd nad oedd yn gwybod am ddim problemau.

Gofynnwyd erbyn pryd y bydd yr adolygiad o'r strwythur ffioedd wedi'i gwblhau. Atebodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant drwy ddweud bod yr adolygiad bellach yn ei drydydd cyfnod. Dywedodd fod ffioedd yn amrywio a bod cyfle i ddylanwadu ar Asiantaethau Maethu Annibynnol drwy ddileu'r elfen gystadleuol. Dylai'r adolygiad o'r strwythur ffioedd fod wedi'i gwblhau erbyn y gwanwyn. Hysbysodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant y Pwyllgor hefyd bod y Cyngor yn delio â phob achos yn unigol ac ategodd fod angen troedio'n ofalus. Nododd nad oedd dim cynlluniau ar droed i symud plant os nad hynny oedd y peth gorau iddynt.

Hysbysodd Ms Walsh y Pwyllgor y dylid ystyried creu canolfan sy'n agored i bawb, lle gall gofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol a theuluoedd gwrdd, a hynny am fod rhai ymweliadau wedi digwydd mewn mannau cyhoeddus yn y Swyddfeydd Dinesig. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y Pwyllgor fod nifer o ymweliadau cyswllt yn digwydd yn y Swyddfeydd Dinesig a bod trefniadau amgen yn cael eu hystyried oherwydd prinder llefydd parcio ac am nad yw'r Swyddfeydd yn gyfeillgar iawn i blant. Nododd fod angen ystyried datrysiad mewn cydweithrediad â phartneriaid ac y dylai hyn fod yn flaenoriaeth. Ategodd fod y cyhoedd yn gallu gweld yr ymweliadau cyswllt sy'n digwydd yn y Swyddfeydd Dinesig ac y dylid

dod â hyn i ben ar unwaith. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor fod angen iddynt gael gwybod am fannau diogel i gynnal yr ymweliadau cyswllt â theuluoedd.

Dywedwyd bod gofalwyr maeth wedi'u colli i Asiantaethau Maethu Annibynnol a bod angen darn o waith i adolygu'r ffioedd. Hysbysodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant y Pwyllgor y telir ffi sylfaenol i ofalwyr a thelir lwfansau ychwanegol yn ystod gwyliau, ar ben-blwyddi ac yn seiliedig ar oedran y plentyn pan gaiff ei fabwysiadu. Roedd gofalwyr maeth yn cael eu hannog i droi at Asiantaethau Maethu Annibynnol ond cydnabyddir erbyn hyn bod yr hyfforddiant a'r cymorth a ddarperir yn fewnol o well ansawdd. Nodwyd bod angen strwythur ffioedd cyffredin drwy'r wlad.

Dywedodd y Cadeirydd fod y gwasanaeth mewnol yn fwy cynhwysol ac mai lles plant yn hytrach nag arian yw'r peth pwysicaf. Diolchodd i'r gofalwyr maeth am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

187. MONITRO PERFFORMIAD A CHYNNYDD GWASANAETH MABWYSIADU RHANBARTHOL BAE'R GORLLEWIN

Adroddodd y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol ar berfformiad a chynnydd Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Bae'r Gorllewin, gan gynnwys yr Adroddiad Blynyddol ar Ddangosyddion Perfformiad Rhanbarthol 2017/18.

Adroddodd y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol fod Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Bae'r Gorllewin bellach yn rhan o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol fel un o'r pum cydweithrediad rhanbarthol a enwyd. Amlinellodd drefniadau rheoli ac arolygu'r Gwasanaeth Cenedlaethol sy'n cynnwys Bwrdd Llywodraethol, Grŵp Ymgynghorol a Chyfarwyddwr Gweithrediadau a Thîm Canolog.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ei bod yn debygol, yn sgil newid ffiniau'r Bwrdd Iechyd, y bydd gofyn i Ben-y-bont ar Ogwr ddod yn rhan o gydweithrediad y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd. Fodd bynnag, cytunwyd y byddai Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i fod yn rhan o gydweithrediad Bae'r Gorllewin, ac na fyddai'n trosglwyddo i ranbarth newydd cyn mis Ebrill 2020 ar y cynharaf.

Adroddodd y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol ar gyraeddiadau allweddol y flwyddyn ac ategodd fod nifer y plant sydd wedi'u lleoli ychydig yn uwch nag yr oedd y flwyddyn flaenorol. Cafodd rhagor o blant eu lleoli â rhieni mabwysiadu Bae'r Gorllewin nag mewn lleoliadau rhyngasiantaethol yn ystod y flwyddyn. Nododd y cafwyd cynnydd yn nifer y plant a allai ddarparu'r rhieni mabwysiadu â deunyddiau Hanes Bywyd. Ar gyfartaledd, roedd yr amser yr oedd yn ei gymryd i gymeradwyo rhieni mabwysiadu, o'r cyfnod ymholi i asiantaeth yn dod i benderfyniad, wedi gostwng o 9.7 mis i 8.2 mis. Cymharer hyn â'r meincnod cenedlaethol o 8 mis. Buddsoddwyd yng ngwefan Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Bae'r Gorllewin, gan ei gwneud yn fwy rhyngweithiol, yn haws ei defnyddio ac roedd bellach yn cynnwys y cynnig rhagweithiol. Roedd tudalen i'r aelodau hefyd yn cael ei datblygu a cheir tudalennau sy'n gyfeillgar i blant fel y cânt eu hannog i ddefnyddio'r safle we. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod gwaith datblygu a gweithredu'r model Trosglwyddo/Symud Ymlaen, sy'n cynorthwyo i baratoi plant i'w mabwysiadu ac i sicrhau deunydd Hanes Bywyd, wedi parhau ar draws y rhanbarth. Ychwanegodd fod y staff yn derbyn hyfforddiant.

Hysbysodd y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol y Pwyllgor fod gwaith yn mynd rhagddo i wella mynediad i'r wefan ac i ddatblygu strategaeth farchnata a recriwtio i Gymru gyfan.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y gwasanaeth mabwysiadu yn cael yr un cyhoeddusrwydd â'r gwasanaeth maethu. Hysbysodd y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol y Pwyllgor fod llawer o waith yn cael ei wneud i godi proffil mabwysiadu ac i godi ymwybyddiaeth yn ei gylch. Soniodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant fod y gwasanaeth maethu yn llawer mwy lleol ei naws a bod mabwysiadu yn wasanaeth mwy cenedlaethol a rhanbarthol ei naws.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at y gwaith datblygu ychwanegol y bwriedir ei wneud ar y system Technoleg Gwybodaeth fel y gellir ei chynnwys yn y system adrodd. Soniwyd hefyd y byddai cipio data yn waith mwy cymhleth. Dywedodd y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol wrth y Pwyllgor fod y gwaith sy'n digwydd ar y cyd ag Adran TGCh Cyngor Castell-nedd Port Talbot i gipio data yn parhau. Dywedodd fod cipio data yn gofyn am lawer o adnoddau ac ategodd fod angen gweithio ar draws y 3 awdurdod yn y rhanbarth. Roedd symud y systemau TGCh sydd o fewn y gwasanaeth mabwysiadu i System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn cael ei ystyried gan fod y system bresennol yn gallu bod yn feichus.

Gofynnodd y Pwyllgor pa ymgyrch farchnata fu'n llwyddiannus a pham. Ym marn y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol, ni chafwyd un ymgyrch farchnata a fu'n fwy llwyddiannus na'r lleill. Dywedodd fod y gwasanaeth yn cydweithio â'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio.

Gofynnodd y Pwyllgor beth oedd Cwnsela Cofnod Genedigaeth yn ei olygu. Esboniodd y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol fod y rhain yn geisiadau oddi wrth oedolion sydd wedi'u mabwysiadu ac sy'n chwilio am wybodaeth hanesyddol sy'n ymwneud â'u mabwysiadu.

Llongyfarchodd y Pwyllgor y gwasanaeth ar lwyddo i leoli brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd. Hysbysodd y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol y Pwyllgor yr aethpwyd ati i hyrwyddo buddiannau'r plant er mwyn denu rhieni mabwysiadu posibl.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurder ynghylch y gwahaniaeth rhwng rhieni mabwysiadu Bae'r Gorllewin a rhieni mabwysiadu rhyngasiantaethol. Esboniodd y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol mai'r rhanbarth sy'n cymeradwyo rhieni mabwysiadu Bae'r Gorllewin ac mai awdurdodau lleol neu asiantaethau eraill sy'n cymeradwyo rhieni mabwysiadu rhyngasiantaethol. Gall rhieni mabwysiadu gael manylion y plant sydd i'w mabwysiadu drwy safle ar-lein rhyngweithiol o'r enw Link Maker. Nid yw pob plentyn ar y safle hwn ond bwriedir gwneud newidiadau i drefniadau Cofrestr Fabwysiadu Cymru. Bydd hon yn cael ei lletya gan Link Maker a bydd pob plentyn yng Nghymru wedi'i gofrestru ar y system hon.

Dywedodd y Pwyllgor ei bod yn galondid gweld y gwaith a wnaed ar y teithiau bywyd ac roedd am iddo gael ei gofnodi ei fod yn ddiolchgar i'r gwasanaeth, a hynny am fod mabwysiadu plant yn llawer anos mewn cyfnod o gyni ariannol.

Yng ngoleuni'r newid sydd ar fin digwydd i ffiniau'r Bwrdd Iechyd, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod gwaith yn parhau i drosglwyddo gwasanaethau i Gwm Taf. Nododd nad yw'r gwasanaeth mabwysiadu yn barod i drosglwyddo am fod Cwm Taf yn rhan o ranbarth mabwysiadu mwy sy'n cynnwys pum awdurdod lleol. Rhaid ystyried llawer o ffactorau wrth drosglwyddo a byddai'n cymryd rhagor o amser i drosglwyddo'r gwasanaeth mabwysiadu i'r rhanbarth newydd.

PENDERFYNWYD: (1) Bod y Pwyllgor wedi ystyried a nodi perfformiad a chynnydd y Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol;

(2) Ystyried ymgyrchoedd marchnata mabwysiadu'r dyfodol a'r modd y gall aelodau etholedig helpu i hyrwyddo'r ymgyrchoedd hyn.

188. AROLYGIAETH GOFAL CYMRU - AROLYGIAD O WASANAETH MABWYSIADU BAE'R GORLLEWIN - CYNLLUN GWEITHREDU

Rhoddodd y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol drosolwg o ganfyddiadau ac argymhellion arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru o Wasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin.

Hysbysodd y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol y Pwyllgor fod cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu er mwyn ymateb i argymhellion Arolygiaeth Gofal Cymru ac y caiff hwn ei fonitro gan y Bwrdd Rheoli Mabwysiadu Rhanbarthol. Rhoddodd ddiweddariad ar bob un o'r argymhellion a gwelwyd bod cynnydd wedi bod ers cyhoeddi adroddiad yr Arolygiad.

Canmolodd y Pwyllgor y gwaith a'r arfer dda yn y rhanbarth a gydnabuwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Fodd bynnag, mynegodd bryder ynghylch trosglwyddo'r gwasanaeth y flwyddyn nesaf i ranbarth y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd. Holodd hefydd a oedd digon o adnoddau wedi'u neilltuo er mwyn trosglwyddo'r systemau TGCh o ganlyniad i'r newid ffiniau. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y Pwyllgor y cytunwyd i oedi rhagor cyn trosglwyddo'r gwasanaeth mabwysiadu i'r rhanbarth newydd ac y bydd blwyddyn bontio. Ategodd fod gwaith cwmpasu hefyd yn cael ei gynnal. Os bydd angen cyfnod pontio sy'n hwy na blwyddyn, bydd achos yn cael ei baratoi i ofyn am estyniad. Neilltuwyd swm o arian i drosglwyddo'r gwasanaeth. Soniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles hefyd fod 1.5 o swyddogion wedi'u neilltuo i weithio ar y prosiect a bod angen cynnal gwaith cwmpasu i weld a oes digon o adnoddau ar gael. Soniodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant wrth y Pwyllgor am y ffrydiau gwaith niferus sydd i'w cael o fewn System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru a fyddai'n ei gwneud hi'n haws trosglwyddo'r systemau TGCh. Holodd y Pwyllgor a oedd cyfle i drosglwyddo unwaith i System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y gallai hyn fod yn bosib am fod Cynghorau Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful yn defnyddio System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.

PENDERFYNWYD: (1) Bod y Pwyllgor yn nodi adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru yn sgil yr arolygiad o Wasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin, y Cynllun Gweithredu cysylltiol ac adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru yn sgil yr adolygiad o'r Trefniadau Mabwysiadu Cenedlaethol;

(2) Bod y Pwyllgor yn diolch i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol am ganlyniad yr arolygiad a'i fod yn gofyn am adroddiad fel y gall fod yn hollol sicr bod yr holl argymhellion a wnaed yn y Cynllun Gweithredu yn cael sylw.

189. EITEMAU BRYS

Ni chafwyd dim eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:40